

**Cofnodion Cyfarfod Cynqor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 9fed Tachwedd, 2021 yn Neuadd Felinfach**

Cynhaliwyd y cyfarfod gyda'r holl weithdrefnau a phrotocolau isod ar waith.

- Cymerwyd tymheredd pob aelod wrth y drws
- Gosodwyd cadeiriau ar bellter o 1 metr
- Gwisgwyd masg trwy gydol y cyfarfod.
- Darparwyd hylif dwylo
- Paratowyd Asesiad Risg

**PRESENNOL**

Cynghorwyr : Gerwyn Owen (Cadeirydd), Lynford Thomas, Glyn Davies, Lyn Williams, Haf Hughes, Hywel Ifans, Daniel Evans, Owen Llywelyn, Harry Williams, Johnny Davies

**1. YMDDIHEURIADAU**

Y Cyng. Alan Henson

**2. PERSONOL**

**3. DATGELU BUDDION PERSONOL**

**Cynllunio.**

- CA210902 Volac Y Cyng. Alan Henson trwy ffurflen
- A210920 Glanfallen Cribyn
- Gohebiaeth:** Menter Tafarn Dyffryn Aeron Cyng. Owen Llywelyn a Hywel Ifans
- Materion yn Codi :** Cyfrifiadur Y Cyng. Hywel Ifans

**4. COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 12fed Hydref 2021 yn gywir. Cynigiwyd gan Y Cyng. Glyn Davies ac eilwyd gan Y Cyng. Johnny Davies.

**5.. MATERION YN CODI**

- Heddlu.** Yn dilyn y llythyr a anfonwyd at Gomisynydd yr Heddlu, bu'r PCSO lleol, Charlotte Court mewn cysylltiad. Penderfynwyd ei gwahodd l'r cyfarfod nesaf.
- Cyfrifadur.** Cyslltwyd â thri cwmni am bris – Telemat, Cliand Computers a BCC IT. Dim ond un amcanbris a dderbyniwyd am gyflenwi'r gofynion a hynny gan BCC IT am £1498.79 yn cynnwys TAW. Ar gynnig Y Cyng. Lynford Thomas a'r eilydd Y Cyng. Harry Williams ar

sail y ffaith na dderbyniwyd unrhyw gynigion eraill, **penderfynwyd** yn unfrydol, derbyn y cynnig hwn

iii. **Gweithgor Dyffryn Aeron.** Penderfynwyd gofyn i'r Gweithgor am ddiweddariad.

## 6. ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR

Yn ei adroddiad soniodd y Cyng. Lynford Thomas am y broblem gyda ffosffadau sydd yn dylanwadu ar benderfyniadau ceisiadau cynllunio yn y Sir.. Penodwyd Cyfarwyddwr Corfforaethol newydd a chadarnhawyd pryniant y tir yn Felinfach ar gyfer yr Ysgol newydd. Y gobaith yw y bydd yn agor ei drysau ym mis Medi 2024. Derbyniwyd llythyr gan Swyddfa'r Ombwdsman yn datgan bod gweithrediadau'r Sir yn gywir. Soniodd hefyd am gynhadledd a fynychodd wedi ei threfnu gan Barcud i drafod y sefyllfa tai ac ail-gartrefi sy'n peri pryder ar hyn o bryd.

## 7. CYLLID

i. Tâl y Clerc Hydref 2021 £199.41

ii. Taliad ICO - £40.00 – yn daladwy erbyn diwedd Hydref

iii. Cyllido Cyfrifiadur (£1,250 net o TAW) – Yn dilyn trafodaeth **penderfynwyd ariannu trwy ddefnyddio £725 sy'n weddill o'r gyllideb a glustnodwyd ar gyfer y deffib. a £525 o'r arian sy'n weddill o'r gyllideb a glustnodwyd ar gyfer Rhoddion**

iv. **7 (iv) Nodwyd bydd cost y bocsys blodau yn cael eu hariannu drwy ddefnyddio cyllideb Contingency (£400) a £150 allan o gyllideb Costau Eraill.**

v. Praespet – derbyniwyd taliad olaf y flwyddyn ym mis Hydref - £3316.67

vi. Taliad Plac Gwobr y Gymuned £35.00

## 8. CYNLLUNIO

i. A210902 – Portakabin Volac - Cadarnhaywd bod y Cyngor wedi cefnogi'r cais trwy Clic.

ii. A210920 Glanfallen Cribyn. Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd yn unfrydol I gefnogi'r cais. Cynigiwyd gan Y Cyng.Owen Llywelyn ac eiliwyd gan Y Cyng. Lyn Williams.

## 9. GOHEBIAETH

i. Darllenwyd llythyr a dderbyniwyd gan Ben Lake AS yn nodi darganfyddiadau'r arolwg banciau a gynhaliwyd dros yr haf.

ii. Derbyniwyd llythyr gan Grŵp Menter Tafarn Dyffryn Aeron. Yn rhan o'r llythyr oedd y datganiad bod y cyfle i brynu siars yn y fenter wedi agor ac yn gofyn am gefnogaeth. Cafwyd trafodaeth ystyrion am y fenter a chyfle i holi cwestiynau i'r

aelodau sydd yn rhan o'r fenter. Yn dilyn y drafodaeth penderfynwyd ar y camau canlynol:

- a. bod y Cyngor yn barod i ystyried y cais yn y cyfarfod hwn
- b. trafodwyd y gyllideb a sut i ariannu unrhyw gynnig. Penderfynwyd defnyddio yr arian a glustnodwyd ar gyfer y prosiect cymunedol.
- c. Cynigiwyd y swm o £2,000 gan y Cyng. Harry Williams ac eiliwyd gan Y Cyng Dan Evans. Pasiwyd yn unfrydol.

10. **UNRHYW FATER ARALL**

- i. Angen torri coed gyferbyn â;r ffatrioedd yn Felinfach. Penderfynwyd cysylltu â'r Sir.
- ii. Atoffwyd pawb am wasanaethau Sul y Cofio yn Felinfach am 6.30pm Nos Sadwrn ac am 10.45 wrth y gofgolofn yng Nghribyn fore Sul.

11. **DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF**

14eg Rhagfyr, 2021 yn Neuadd Dihewyd.